Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rheoliadau Lleoli Plant a Chartrefi Plant (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

1. Roedd y Pwyllgor wedi nodi'r rheoliadau hyn i graffu arnynt a chawsant eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 06. Cawsant eu hystyried yn unol â'r protocol ar gyfer delio ag is-ddeddfwriaeth y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, lle mae'r Aelodau'n rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu welliannau sydd ganddynt.

2. Ni nododd yr Aelodau unrhyw welliannau, ond cododd Helen Mary Jones 3 phwynt i'w hegluro. Gofynnodd am fanylion yr arian ychwanegol a fydd ar gael ar gyfer y mesurau, unrhyw gynlluniau i roi cymorth ychwanegol i CAMHS o ganlyniad i'r mesurau, a sut y bydd y Rheoliadau'n ymdrin â'r gwahanol drefniadau comisiynu mewn gwahanol awdurdodau.

3. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud y byddai £6.1 miliwn yn cael ei ddyrannu i weithredu'r ystod o wasanaethau a fyddai, gobeithio, yn ychwanegol at yr arian a oedd yn y system eisoes, ac y byddai £2 miliwn yn cael ei ddyrannu i CAMHS i leihau amseroedd aros ymhellach. O ran y trefniadau comisiynu, dywedodd y Gweinidog y byddai panel o randdeiliaid yn cael ei sefydlu i benderfynu ar faterion yn ymwneud â chymryd plant allan o'r sir, ac o ran gwasanaethau eilaidd, yr awdurodod o ble y daeth y plentyn yn wreiddiol fyddai'n gyfrifol am dalu am wasanaethau.

4. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y rheoliadau drafft.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd

Rhagfyr 2006